Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Drwy e-bost

17 Hydref 2018

Annwyl Nick

**Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-20**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ddydd Iau 11 Hydref i gyflwyno'ch amcangyfrif. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu, ar ôl ystyried eich amcangyfrif a'r dystiolaeth a ddarparwyd gennych, na all y Pwyllgor osod eich amcangyfrif fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor. Mae ein pryderon yn ymwneud â dau faes penodol, a amlinellir isod, y bydd angen i chi fynd i'r afael â hwy a'u hailgyflwyno i'r Pwyllgor.

1. Costau mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)
   Mae'r Pwyllgor yn nodi eich barn nad ydych wedi cynnwys costau yn yr amcangyfrif mewn perthynas â Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (y Bil) oherwydd nad oeddech eisiau "rhagfarnu pethau" drwy gymryd yn ganiataol y byddai'r Bil yn pasio drwy'r Cynulliad. Fe wnaethoch nodi y byddech yn cyflwyno cyllideb atodol yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 pe bai'r Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, roedd eich amcangyfrif ar gyfer 2018-19 yn cynnwys amcangyfrif o gostau o £340,000 pe bai'r Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol yn y flwyddyn ariannol hon. Roedd eich amcangyfrif ar gyfer 2018-19 yn nodi:

   *Yn sgil y pwerau ychwanegol ym Mil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, yn yr Atodiad mae'r cyflwyniad ar gyfer blwyddyn*

*ariannol 2018/19, ynghyd â syniad o'r gofynion o ran y gyllideb am flwyddyn lawn pan fydd y ddeddfwriaeth ar waith. Er mwyn bod yn gyflawn y mae hyn, ac nid yw'n golygu unrhyw dybiaeth y bydd y ddeddfwriaeth yn parhau yn ei ffurf bresennol neu o gwbl. Mae'r costau yn y golofn derfynol yn cynnwys costau staff, costau swyddfa cysylltiedig a chostau TG sy'n deillio o'r pwerau ychwanegol i ystyried cwynion ar lafar, i gynnal ymchwiliadau ar fy liwt fy hun ac i gyflwyno swyddogaeth safonau cwynion. (Nid oes costau wedi'u cynnwys yng nghyswllt yr estyniad arfaethedig i'r pwerau i ymchwilio i gwynion iechyd sy'n cynnwys elfen o driniaeth iechyd breifat. Disgwylir y gellir delio â'r rhain drwy'r adnoddau presennol sydd ar gael i'r swyddfa.)*
*Y costau sy'n gysylltiedig â'r pwerau ychwanegol yn y ddeddfwriaeth newydd yw'r rheini sydd wedi'u cynnwys a'u hesbonio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, a fydd yn cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol."*

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yr amcangyfrif ar gyfer 2018-19 yn cynnwys y costau hyn "er mwyn bod yn gyflawn", ac eto rydych chi wedi dewis eu hepgor o'r amcangyfrif rydych chi wedi'i gyflwyno ar gyfer 2019-20.

Er ei fod yn cydnabod mai trahaus fyddai cynnwys y costau yn eich amcangyfrif fel gofyniad cadarn am y flwyddyn i ddod, hoffai'r Pwyllgor weld manylion am y costau disgwyliedig, gan gynnwys eich barn am y gwaith craffu cam 1 ac unrhyw newid posibl i'r costau posibl. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw bob amser yn bosibl gwybod pryd y gallai fod angen cyllideb atodol, ond lle mae posibilrwydd hysbys o gyllideb atodol er mwyn bod mor agored a thryloyw â phosibl, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl cynnwys yr amcangyfrif costau hwn.

A fyddech cystal â diweddaru eich amcangyfrif i ddangos y costau posibl y byddwch yn eu cyflwyno fel cyllideb atodol os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Dylai fod yn hawdd adnabod y rhain yn eich dadansoddiad o'r costau.

2. <u>Ceisio cynnydd o 3.8 y cant mewn adnoddau ar gyfer 2019-20.</u>
   Mae'r Pwyllgor yn nodi bod eich amcangyfrif ar gyfer 2019-20 yn cynnwys gwariant adnoddau net arfaethedig o £4,651k gyda gofyniad arian parod net o £4,591k. Mae eich cyflwyniad yn datgan:

   *"Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb i'r cyllid sydd ei angen i reoli llwyth gwaith y Swyddfa'n ôl lefelau'r amcanestyniad gan gadw fy nghyllideb yn ddim mwy na 0.03 y cant o floc Cymru. Mae'r cynnydd mewn adnoddau a geisir amdano (3.8 y cant) yn llai na'r newid o 3.9 y cant o floc Cymru (TME)."*

   Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor, gofynnwyd i chi sut yr oeddech wedi pennu bod bloc Cymru wedi cynyddu 3.8 y cant, dywedodd y swyddog a oedd gya chi:

   'We don't base those figures on the estimate of what the block is going to change. We always calculate it in arrears, so we compare the annual budget motion, for example, in 2018-19, with the annual budget motion of 2017-18, and we've consistently done that over the last 10 years. So, in the last two years, the block moved from £17.3 billion to £18 billion of total managed expenditure, which is where we get the 3.9 per cent."

   Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod eich dull o gyllidebu ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod yn seiliedig ar y cynnydd ym mloc Cymru yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

   Ar ben hyn, fe wyddoch [1]y bu'r Pwyllgor yn craffu Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ei gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20[2] ar 3 Hydref. Mae'r Comisiwn wedi cyllidebu yn unol â chynnydd disgwyliedig o 1.67 y cant ym mloc Cymru ar gyfer 2019-20 ac mae ei gyllideb weithredol yn cynyddu gan 1.66% (ac eithrio newid yn y dull o gyllidebu ar gyfer

---

[1] http://record.assembly.wales/Meeting/5130

[2] http://senedd.assembly.wales/documents/s79021/FIN5-21-18-P1%20-%20National%20Assembly%20for%20Wales%20Commission%20draft%20budget%202019-20.pdf

prosiectau'r Comisiwn). Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y dull hwn, sy'n defnyddio cynnydd tebygol ym mloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, yn fwy addas na'r dull rydych chi wedi'i ddefnyddio.

Nid yw'r Pwyllgor wedi adrodd eto ar y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20, ond mae'n fodlon gan fwyaf gyda'r cynnydd arfaethedig, yn seiliedig ar ei gyfrifiadau o'r newidiadau i floc Cymru. Mae'r Pwyllgor yn teimlo na fyddai'n briodol cefnogi eich cynnydd arfaethedig, yng ngoleuni cynnydd arfaethedig y Comisiwn. Fel y cyfryw, rydym yn gofyn i chi addasu eich amcangyfrif a'i ailgyflwyno, gan leihau eich cynnydd arfaethedig, cyn adlewyrchu'r costau ychwanegol o ganlyniad i'r Bil, o 3.8% i 1.6%.

Fel sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 20.24, rydym yn ymgynghori â chi ynghylch y newidiadau hyn. Rwy'n gobeithio y byddwch yn deall rhesymeg y Pwyllgor Cyllid dros wneud hyn ac rydym yn gofyn i chi addasu eich amcangyfrif ar gyfer 2019-20 i ymgorffori'r newidiadau hyn, a'i ailgyflwyno i'r Pwyllgor erbyn dydd Gwener 2 Tachwedd. Fodd bynnag, os hoffech wneud sylwadau ynglŷn â'n ceisiadau, rhowch wybod i Glerc y Pwyllgor Cyllid (Bethan Davies, Bethan.Davies@cynulliad.cymru) cyn gynted â phosibl, ond erbyn 24 Hydref fan bellaf.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Cyllid